# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## (HSS(2)-15-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 26 Hydref 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30 am 12.35 pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelodau'r Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |

#### Swyddogion yn bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dr Tony Jewell | Y Prif Swyddog Meddygol |
| Rob Pickford | Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru |
| Natalie Cooper | Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru |

#### Eraill yn Bresennol

| Enw | Corff |
|---|---|
| Dr Andrew Fowell (Cadeirydd) | Cadeirydd y Grwp Cyfeirio Arbenigol sy’n rhoi cyngor i’r Pwyllgor ar yr Adolygiad o Wasanaethau Canser / Ymgynghorydd Meddygaeth Liniarol, Ysbyty Gwynedd |
| Sue Acreman | Grwp Cynghori ar Ganser Nyrsio a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Catherine Lewis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Kathryn Potter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Nododd y Cadeirydd fod Helen Mary Jones wedi ymddiheuro a chroesawodd Dai Lloyd fel dirprwy.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Adolygu Gwasanaethau Canser HSS(2)-15-06(p2)

2.1 Ymatebodd Sue Acreman a Dr Andrew Fowell i gwestiynau’r Pwyllgor am fyw yn dda gyda chanser.

### Camau i’w cymryd

Byddai Cydffederasiwn GIG Cymru yn cael gwahoddiad i roi tystiolaeth ar lafar i’r Pwyllgor ynghylch comisiynu.

## Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog HSS(2)-15-06(p3)

3.1 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Gweinidog.

3.2 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Byddai'r Pwyllgor yn cynnal trafodaeth fanwl ar bapur Strategaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol sef Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol ac ar yr ymateb i'r broses ymgynghori bresennol.

Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn cadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon bwrw ymlaen â Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) drwy'r weithdrefn garlam.

Byddai'r Gweinidog yn paratoi papur yn nodi sut y cafodd y £4.9 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ei wario yng nghyswllt cam cyntaf yr ysbyty plant.

Byddai'r Gweinidog yn paratoi papur yn nodi swm y refeniw a godwyd gan bob Ymddiriedolaeth GIG drwy godi am barcio ym meysydd parcio ysbytai a'r prisiau a godwyd, a thrwy godi am ddefnyddio ffonau ger gwelyau cleifion.

**Eitem 4: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth**
**HSS(2)-15-06(p4a) and HSS(2)-15-06(p4b)**

4.1 Nododd yr Aelodau yr eitemau a ganlyn i graffu arnynt o'r Rhestr o Is-ddeddfwriaeth:

HSS 39 (06) The NHS Wales Pharmaceutical Services (Advanced and Enhanced Services) (Wales) (Amendment) Directions.

**Camau i'w cymryd**

Byddai'r Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am yr is-ddeddfwriaeth a nodwyd at ddibenion craffu.

**Eitem 5: Adroddiad Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru**
**HSS(2)-15-06(p5)**

5.1 Cyflwynodd Rob Pickford yr adroddiad, ac ymatebodd i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

**Papurau i'w nodi**

Gwybodaeth ychwanegol am CaNISC
HSS(2)-15-06(p6)

Blaenraglen waith y Pwyllgor – o fis Hydref i fis Ragfyr 2006
HSS(2)-15-06(p7)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2006
HSS(2)-14-06-min

Gwasanaethau’r Pwyllgorau
Hydref 2006